
Dŵr Cymru
Welsh Water

V2 - Gorffennaf 2025

# Y Rheoliadau Dŵr

Gwybodaeth i gadw eich safle amaethyddol yn ddiogel.



Dŵr yfed diogel, o safon uchel a dibynadwy bob amser.

## Beth yw'r Rheoliadau?

Mae Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 (y Rheoliadau) yn berthnasol i eiddo sy'n cael cyflenwad dŵr iachus gan Ddŵr Cymru.

Nhw yw'r gofynion cenedlaethol ar gyfer dylunio, gosod a chynnal a chadw systemau plymio, ffitiadau dŵr ac offer sy'n defnyddio dŵr ar draws Cymru a Lloegr.

Prif bwrpas y Rheoliadau yw amddiffyn iechyd y cyhoedd trwy atal gwastraff, camddefnydd, defnydd diangen, mesur gwallus ac yn bwysicach na dim, halogiad y dŵr rydyn ni'n ei ddarparu ar gyfer ein cwsmeriaid.


## Pwy sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau?

Rhaid i'n cwsmeriaid gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn fel perchnogion neu ddeiliaid eiddo rydyn ni'n eu cyflenwi. Rhaid i unrhyw un sy'n gosod, neu sy'n cynnig gosod ffitiadau dŵr gydymffurfio hefyd. Gallai methu â gwneud hynny arwain at gamau gorfodi ac erlyn.

## Ymhle mae'r Rheoliadau mewn grym?

Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i'r holl bibellwaith a ffitiadau o fewn ffiniau eiddo'r cwsmer. Mae hynny'n golygu popeth o'ch pibell gyflenwi hyd at a chan gynnwys unrhyw gyfarpar sy'n defnyddio dŵr o'r brif bibell.

**Meysydd posibl o risg o gwmpas eich eiddo lle gall dŵr gael ei halogi.**




# Rôl Dŵr Cymru

Fel eich cyflenwr dŵr, mae dyletswydd ar Ddŵr Cymru i orfodi gofynion y rheoliadau ar eich safle.

Gall ein Rheoleiddwyr ein harchwilio ni o ran sut rydyn ni'n gweithredu ein rôl gorfodi er mwyn sicrhau bod ein dull o weithredu o ran ein cwsmeriaid yn gyson, yn deg ac yn cyd-fynd â gofynion y Rheoliadau. Mae Dŵr Cymru'n cyhoeddi polisi gorfodi ar ein gwefan lle gallwch ddysgu rhagor am sut rydyn ni'n gweithio gyda'n cwsmeriaid i hyrwyddo cydymffurfiaeth ar draws ein hardal gyflenwi.

# Categorïau hylif - deall y risg




Rhoddir statws risg fesul Categori Hylif i ffitiadau dŵr a halogyddion hysbys. Mae'r Categori Hylif yn dangos lefel y risg i'r cyflenwad dŵr yfed a'r rhwydwaith ehangach os oes digwyddiad halogi.

Aseinir amddiffyniad penodol rhag adlif i'r categorïau hyn er mwyn amddiffyn y cyflenwad dŵr hyd at y categori penodol hwnnw.

# Pwyntiau i'w nodi ar safleoedd amaethyddol

Dyma esiamplau o'r problemau sy'n cael eu nodi yn ystod archwiliadau'r Rheoliadau Dŵr ar safleoedd amaethyddol. Dylid nodi nad yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr a gallai'r problemau amrywio o un safle i'r llall.


**1. Cafnau Yfed Anifeiliaid**
Am fod cafnau'n agored i'r elfennau, mae yna risg uchel o halogiad o bethau fel mater anifeiliaid neu bryfed. Fel risg hylif categori 5, yn gyfreithiol mae angen rhwystr addas rhyngddo a chyflenwad dŵr y brif ffrwd er mwyn atal risg i'ch eiddo a'r cymunedau cyfagos.




- Ystyried gosod blwch gwasanaethau dyrchafedig er mwyn sicrhau bod bwlch aer digonol.
- Chwilio i weld a yw'r falf pêl yn gweithio fel y dylai a bod y cafn yn wastad ac yn sefydlog.





- Gosod unrhyw allfeydd a allai fynd o dan y dŵr.
- Chaniatáu i'r cafn orlifo.




Rhaid amddiffyn pob rhan rhag difrod gan wartheg

## 2. Tapiau Uno Pibellau

Mae'r risg bosibl o dap uno pibellau yn amrywio yn dibynnu ar gategori hylif unrhyw hylifau y mae'n dod i gysylltiad â nhw. Er enghraifft, byddai tap uno pibellau mewn ardal lle mae llawer o slyri yn risg hylif categori 5.




**Awgrym:** Defnyddiwch glipiau ffrwyno neu rîl pibell y gellir ei dynnu nôl i ddiogelu'r bibell ddyfrio yn ei lle a'i hatal rhag ymsuddo neu gael ei halogi gan unrhyw beth sydd gerllaw.

---

Ni ddylai pibellau byth fod dan ddŵr mewn bwced, cafn, draen neu'n gorwedd ar y ddaear.

## 3. Ffynonellau Dŵr Amgen

Mae gan lawer o ffermydd ffynonellau dŵr amgen, fel tarddell neu ffynnon, sy'n cael eu ddefnyddio at amrywiaeth o ddefnyddiau. Ni ddylid cysylltu unrhyw ffynonellau dŵr amgen yn uniongyrchol â'r cyflenwad dŵr yfed o'r brif bibell.


**COFIWCH**

Os oes angen ffynonellau dŵr o'r brif bibell ac amgen ar y cyd, yr unig ffordd o wneud hyn sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau yw defnyddio seston â threfniant bwlch aer AA, AB neu AD. Sicrhewch eich bod chi'n defnyddio'r tâp marcio cywir (gwyrdd a du) a bwlch aer priodol.

**PEIDIWCH Â**

Ni ddylid byth cysylltu dŵr o'r brif bibell yn uniongyrchol lle gallai ddod i gysylltiad â dŵr preifat, hyd yn oed fel system wrth gefn. Rhaid cael gwahaniad ffisegol sy'n gyson â'r diagram isod sy'n dangos trefniant blwch aer ffisegol Math AA

**Trefniant ategu'r brif bibell ar gyfer storio dŵr yfed anyfadwy**




Dylid nodi, os yw dŵr yn cael ei godi at ddibenion dŵr iachus trwy'r drefn yma, rhaid i'r holl bibellwaith a phwyntiau defnydd i lawr y llif o'r trefniant yma gydymffurfio â'r Rheoliadau Dŵr hefyd.


## 4. Systemau Dyfrhau

Os bwriedir defnyddio dŵr o'r prif gyflenwad at ddibenion dyfrhau, mae hi'n bwysig bod y system yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

- Ar y cyfan, ystyrir bod systemau bychain heb unrhyw ychwanegion yn risg categori hylif 3, a gellir eu gosod â falf ddwbl. Os yw'n cynnwys pennau chwistrell, rhaid eu gosod o leiaf 150mm uwchben y ddaear. Mae systemau o'r math yma'n dueddol o fod mewn gerddi domestig bychain, basgedi crog a rhandiroedd bychain.
- Ar y cyfan, ystyrir bod systemau mwy o faint, gan gynnwys rhai sy'n cael eu gosod o dan y ddaear, gyda neu heb ychwanegion, yn risg categori hylif 5, a byddai angen lefel briodol o amddiffyniad rhag adlif arnynt.

**5. Hydreiddiad a Llygru**

Mae gan danwydd a chemegolion sy'n cael eu sarnu ger pibellau dŵr plastig y potensial i ymdreiddio i bibellau plastig safonol a halogi'r cyflenwad dŵr yfed. Er mwyn atal hyn rhag digwydd dylech osod pibell atal a ffitiadau priodol sy'n cydymffurfio â BS8588. Mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer gosodiadau newydd lle mae olew neu danwydd yn bresennol ar y safle, neu lle mae'r ddaear wedi ei halogi eisoes.




## Hysbysu

Ydych chi'n bwriadu ymestyn neu addasu eich system plymio annomestig neu amaethyddol? Mae'n bosibl y bydd angen i chi ein hysbysu ni yn gyntaf fel y gallwn ni eich helpu chi i gadw eich cyflenwad dŵr yn ddiogel. Cysylltwch â ni i holi **www.dwrcymru.com/hysbysu**

## Osgowch broblemau plymio

Er mwyn osgoi halogi eich cyflenwad dŵr, dylech ddefnyddio ffitiadau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau yn unig. Ni fydd yr holl gynhyrchion sydd ar werth yn cydymffurfio ar ôl eu gosod, felly dylech sicrhau eu bod nhw'n bodloni safonau priodol.

Un ffordd o brofi bod cynnyrch yn addas yw chwilio am gymeradwyaeth neu ardystiad annibynnol, fel y rhai a gynigir gan Gymeradwyaeth KiWA UK REG4, NSF Reg4 neu WRAS.

Yn ogystal â phrynu ffitiadau sy'n cydymffurfio, rydyn ni'n argymell eu bod nhw'n cael eu gosod gan blymwr WaterSafe.

Gweithwyr proffesiynol cymwys yw'r rhain sydd wedi cyflawni hyfforddiant ychwanegol i ddangos gwybodaeth addas am y Rheoliadau, gan atal y risg y gallai eich eiddo fethu â chydymffurfio, a'r gost o orfod unioni pethau wedyn.

WaterSafe®
LOCAL APPROVED PLUMBERS

Cyfeiriadur y gellir ei ddefnyddio am ddim lle gallwch ddod o hyd i gontractwyr cymeradwy yn eich milltir sgwâr yw **WaterSafe** Mae'r sefydliad yn tynnu'r Cynlluniau Contractwyr Cymeradwy sy'n gweithredu yn y DU ynghyd dan yr un to.

WIAPS

**WIAPS** yw un o'r Cynlluniau Contractwyr Cymeradwy sy'n gweithredu o dan WaterSafe. Mae aelodaeth o WaterSafe am ddim i aelodau Cynlluniau Contractwyr Cymeradwy cymwys cyfredol hefyd.

## Cysylltu â ni

I gael rhagor o gyngor ar y Rheoliadau, cysylltwch ag aelod o'n tîm Rheoliadau Dŵr pwrpasol. Mae'r ddogfen hon yn dangos ambell un o ofynion y Rheoliadau yn unig, a rhaid i bob gosodiad gydymffurfio'n llwyr â'r holl Reoliadau.

Os oes cwestiynau gennych am osodiad penodol neu rywbeth arall sy'n ymwneud â'r ffordd rydyn ni'n gorfodi'r Rheoliadau, y peth gorau i'w wneud yw cysylltu â ni'n uniongyrchol.

Gallwch gysylltu â ni trwy e-bost:
**WaterRegulations@dwrcymru.com**

Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar gael ar ein gwefan hefyd:
**www.dwrcymru.com/rheoliadaudwr**

Gallwch gael gwybodaeth am y Rheoliadau gan sefydliadau eraill hefyd, fel Water Regs UK.

Ffôn: **01495 983010**
Gwefan: **www.waterregsuk.co.uk**
E-bost: **info@waterregsuk.co.uk**

Llyfryn Amaeth Y Rheoliadau Dŵr UK: **https://www.waterregsuk.co.uk/downloads/publications/booklets/agricultural_booklet.pdf**